# DARGANFOD ARLOESEDD
## Medi – Tachwedd 2018

FARMING connect cyswllt FFERMIO

### Statws RAG

■ Coch: Tu ôl i'r targed ■ Melyn: Bron â chyrraedd y targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed

### Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth ■

Allbynnau allweddol yn ystod y chwarter:


Cyhoeddwyd 3 erthygl dechnegol:

- DEFNYDDIO TECHNOLEG HIDLO TRWY BILEN I LEIHAU LLYGREDD AMAETHYDDOL
- RHEOLI SLYRI YN WELL: DEFNYDDIO TECHNOLEGAU GWAHANU
- PLASTIGAU BIODDIRADDIADWY AT AMAETHYDDIAETH

Cyhoeddwyd 1 daflen wybodaeth:

- IECHYD YR HWRDD

### Partneriaeth Arloesi Ewrop ■




### Prosiectau newydd a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod hwn: Ffermwyr yn cydweithio i drechu Clafr

Yn y prosiect tair blynedd hwn bydd grŵp o ffermwyr o ardal Talybont, Gogledd Ceredigion yn ymchwilio sut y gall cydweithio, yn hytrach na gweithio ar ffermydd unigol, wella llwyddiant y driniaeth clafr. Nod y prosiect yw cynyddu effeithlonrwydd triniaeth clafr drwy ddefnyddio technegau diagnosis a thrin mewn modd cydlynol ar draws pob fferm sy'n cymryd rhan.

### I bleee wyt ti wedi mynd?

Gyda'r nod o ffermio yn ddoethach yn hytrach na chaletach mae grŵp o chwe ffermwr o bob rhan o Gymru yn ymchwilio i weld sut y gall defnyddio technoleg olrhain helpu i atal problemau megis casglu, rheoli'r borfa a mwy o bosibilrwydd y bydd y stoc yn cael eu dwyn. Bydd coler GPS yn cael ei osod ar ganran o ddwy fuches a dwy ddiadell am ddau gyfnod pori.

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth am ein prosiectau sydd wedi derbyn cymeradwyaeth.

### Diweddariad ar brosiectau presennol:

### Lleihau'r defnydd o wrthfiotigau yn ystod y cyfnod ŵyna

Yn dilyn y tymor wyna 2018, gwelodd y grŵp o Ynys Môn bod rheoli a mynd i'r afael â maeth mamogiaid yn allweddol ar gyfer cynhyrchu ŵyn iach sy'n cael digon o golostrwm, sydd, yn ei dro, yn arwain at lai o ddefnydd o wrthfiotigau.

Cliciwch yma neu'r sgrin deledu isod i glywed aelod o'r grŵp, Gareth Thomas, Tregynrig, yn siarad am ei brofiad o gymryd rhan yn y prosiect hyd yn hyn.

Camau nesaf:

- Mae'r grŵp yn paratoi at eu hail dymor ŵyna o fewn y prosiect
- Cymerwyd samplau silwair o'r 7 fferm
- Mae dognau bwyd bellach yn cael eu llunio ar gyfer pob diadell

### Cynnal profion genomig ar heffrod llaeth

Hyd yma, mae canlyniadau genomeg 410 o heffrod wedi cael eu dadansoddi ar draws 8 fferm ac mae trothwy o + £200 PLI wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer bridio anifeiliaid cyfnewid ar gyfer y fuches. Cafodd 42% o'r fuches eu gosod uwchben £200 PLI ar gamgymeriad gan ddefnyddio cyfartaledd eu rhieni ac felly byddent wedi cael eu defnyddio ar gyfer bridio anifeiliaid cyfnewid, er bod eu canlyniadau genomeg yn nodi mewn gwirionedd eu bod dan £200 PLI ac ni ddylid eu defnyddio ar gyfer bridio anifeiliaid cyfnewid


Ar ochr arall y raddfa, roedd 39% o'r heffrod dan £200 PLI yn seiliedig ar gyfartaledd eu rhieni, a byddent wedi derbyn semen bîff, er bod eu canlyniadau genomeg yn nodi y dylent fod wedi cael eu defnyddio i fridio anifeiliaid cyfnewid.

Mae'r canlyniadau hyn yn dangos bod profion genomeg yn adnodd hanfodol i ffermwyr llaeth er mwyn gallu dethol heffrod i'w defnyddio ar gyfer bridio, ac i gynyddu gwelliannau geneteg o fewn y fuches.



Uchod: Y grŵp o ffermwyr o ogledd Cymru sy'n gweithio ar y prosiect EIP ar Genomeg

### Teithiau Astudio ■




Cynhaliwyd **6** taith astudio yn ystod y cyfnod hwn.

Ym mis Hydref, bu CFfI Cymru yn ymweld â Gogledd Iwerddon. Nod yr ymweliad oedd rhoi cyfle i aelodau weld rhai o ffermydd mwyaf llwyddiannus Iwerddon a chael syniadau i'w rhoi ar waith ar eu ffermydd eu hunain.

Bu Fforwm Amaeth Sir Gâr hefyd yn ymweld â Gogledd Iwerddon ym mis Hydref i gael cipolwg o sut mae ffermydd yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu rheoli a sut maen nhw'n cymharu â systemau yng Nghymru.

Ym mis Hydref, bu'r grŵp trafod Grazing Gogs yn ymweld â De Orllewin Lloegr i gael cipolwg o sut all ffermydd llaeth dyfu ac arallgyfeirio dros genedlaethau.

Teithiodd y grŵp trafod Grazing Dragons i Ogledd Cymru yn ystod mis Hydref i ymweld â phum fferm laeth flaengar, a phob un ohonynt yn rhedeg systemau lloia yn y gwanwyn yn seiliedig ar y borfa, gyda'r nod o ddatblygu dealltwriaeth o strwythur pob busnes.

Ym mis Tachwedd, bu Grŵp Materion Gwledig Sir Benfro yn ymweld â Gogledd Cymru i ehangu eu gwybodaeth amaethyddol o fewn y sector llaeth gan gynnwys tir glas, arallgyfeirio a geneteg.


Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government